

## Periw a'r Wampis

Mae tua 15,000 o lwyth y Wampis yn byw yng nghoedwig law yr Amazon ym Mheriw, mewn ardal o 1.3 miliwn hectar (2 filiwn hectar ydy Cymru!).

Maen nhw'n byw mewn aneddiadau, gyda'r rhan fwyaf o bobl ond yn tyfu bwyd i'w teulu. Mae rhai hefyd yn gwneud ychydig o arian drwy dyfu cacao organig, cael fferm bysgod fach, a thyfu bananas.

Mae'r goedwig yn bwysig iawn i sut mae'r Wampis yn teimlo, gan eu bod yn credu bod gan bopeth byw warcheidwaid sy'n byw mewn rhannau cysegredig o'r goedwig. Mae'r Wampis yn gymuned hynafol sydd ers canrifoedd lawer, wedi cadw'r gred bod rhaid iddynt gynnal y goedwig gan gadw cydbwysedd â phopeth byw. Does dim angen gwneud penderfyniad am warchod yr amgylchedd - mae'n rhan o bwy yw'r Wampis.

Mae datgoedwigo yn lleihau mewn ardaloedd lle mae cymunedau lleol sydd wedi bod yn byw gyda'r goedwig ers canrifoedd yn cael hawliau i'w tir.

### Y problemau sy'n wynebu'r gymuned

Mae llawer o broblemau. Mae pobl yn symud i mewn i dyfu cnydau fel olew palmwydd ac i fwyngloddio aur. Mae mwyngloddio aur yn rhoi cemegau gwenwynig mewn afonydd ac yn lladd popeth. Mae cwmnïau yn chwilio am lefydd i ddrilio am olew a nwy. Mae cynllun ar y gweill i adeiladu priffordd trwy'r ardal ac argae enfawr, a fyddai'n gorlifo ardal fawr.

Mae pwysau ar y Wampis i dorri a gwerthu pren hefyd.

Mae Andres Noningo, un o arweinwyr y Wampis, yn egluro bod angen iddyn nhw gael dweud eu barn am yr hyn sy'n digwydd yn y goedwig, er mwyn iddyn nhw fedru diogelu eu hunain rhag cwmnïau a gwleidyddion "sydd ond

yn gallu gweld aur ac olew yn ein hafonydd a'n coedwigoedd".

## Beth maen nhw eisiau ei wneud

Nod y prosiect ydy sicrhau y gall llwyth y Wampi reoli eu tiroedd eu hunain, a chefnogi pobl i wneud bywoliaeth yn y goedwig heb ei difrodi.

Gweledigaeth hirdymor y gymuned ei hun yw:

"i ddod yn fwy gwydn a hunangynhaliol, ac i rymuso ein pobl ifanc a'n menywod drwy well addysg ac ymwybyddiaeth."

## Beth mae'r prosiect yn ei wneud?

Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan y Wampi eu hunain. Maen nhw angen i'r goedwig gael ei gwarchod. Mae dod â'r bobl at ei gilydd i drafod eu cynlluniau yn bwysig, felly prynodd y prosiect gwch a gosod system radio sy'n darlledu ar draws y diriogaeth.

Mae'n eu cefnogi nhw i sicrhau'r hawliau cyfreithiol i'r tiroedd maen nhw wedi bod yn byw ynddynt ers canrifoedd. Mae rhai o'r Wampi wedi cael eu hyfforddi mewn monitro GPS, fel eu bod nhw'n gallu casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'w tiroedd, er mwyn cynllunio a stopio difrod.



Maen nhw eisiau ailblannu coed a chynhyrchu cynhyrchion crefft y gallant eu gwerthu. Maen nhw'n annog tyfu cacao a chadw pysgod mewn ffyrdd sydd ddim yn difrodi'r goedwig.

## Llwyddiant hyd yn hyn:

Mae gweithredu heddychlon gan 300 o ddynion, menywod a phlant wedi cael gwared â mwyngloddwyr anghyfreithlon sy'n gweithio ar afon Santiago, lle mae coedwigoedd wedi cael eu dinistrio a ffynonellau dŵr wedi'u halogi. Maen nhw nawr yn protestio yn erbyn adeiladu priffordd ac argae enfawr. Maen nhw wedi llwyddo i stopio gweithgareddau olew a nwy am y tro ger afon Morona ar eu tir, ac maen nhw'n dwyn camau yn erbyn Llywodraeth Periw dros y difrod yn sgil drilio olew yn y gorffennol.

Nawr, mae ganddynt Lywodraeth ymreolaethol ar gyfer llwyth y Wampis (Wampis-GTA), a'u prif nod yw cael cydnabyddiaeth o hawliau llwyth y Wampis i reoli eu hardal. Maen nhw wedi cynnwys pobl leol yn y gwaith o greu cynllun defnydd tir ar gyfer eu hardal.